**GWEITHDREFNAU ARIANNOL**

**<u>Adran 06 – Moeseg Fasnachol</u>**

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad |
| **Dyddiadd Cymeradwyo:** | Chwefror 2021 |
| **Perchennog y Polisi:** | Rheolaeth Cyllid |
| **Dyddiad Adolygu Diwethaf:** | Chwefror 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Mehefin 2022 |

**Adran 6: Moeseg Fasnachol**

## 6. Adran 6: Polisi Moeseg Fasnachol

6.1. Er budd uniondeb, didwylledd ac atebolrwydd cyhoeddus, dylai staff ac aelodau’r Brifysgol sicrhau, wrth ddelio â phartneriaid masnachol, aelodau o'r cyhoedd, cydweithwyr, etc., fod buddiannau'r Brifysgol o'r pwys mwyaf, a bod rhaid osgoi enillion personol neu deuluol, neu'r canfyddiad ohono.

6.2. Ni fydd y Brifysgol yn cydweithio gyda chwmnïau, sefydliadau, unigolion, etc., sydd yn fwriadol yn osgoi ei chaffaeliad, ei thendro, ei pholisïau recriwtio etc., neu sydd yn cynnig neu’n darparu unrhyw gymhelliad i staff ac aelodau’r Brifysgol. Os caiff yr amod hwn ei dorri, bydd y Brifysgol, heb niweidio unrhyw hawliau eraill sydd ganddi, yn rhydd ar unwaith i derfynu’r berthynas gyda’r sefydliad neu’r unigolyn o dan sylw ac i adfer unrhyw golled neu ddifrod sydd yn ganlyniad o’r fath derfyniad. Yn yr un modd, os canfyddir fod unrhyw weithiwr, unrhyw aelod neu unrhyw asiant arall o’r Brifysgol yn torri’r amodau, bydd y Brifysgol, heb niweidio unrhyw hawliau eraill sydd ganddi, yn rhydd i derfynu’r contract neu’r berthynas gyda’r unigolyn / unigolion o dan sylw ac yn adfer unrhyw golledion posibl a gafwyd gan y Brifysgol fel canlyniad i dorri’r amodau hyn.

6.3. Dylai pob tendr sylfaenol a dogfennau contract gynnwys y cymal gwrth-lygredd canlynol:

*‘Ni fydd y Cyflenwr yn fwriadol yn rhoi, yn darparu, nac yn cynnig i staff, i aelodau nac i asiantau’r Brifysgol unrhyw fenthyciad, ffi, gwobr, rhodd neu unrhyw dâl neu fantais o gwbl. Os caiff yr amod hwn yn cael ei dorri mewn unrhyw ffordd, bydd y Brifysgol, heb niweidio unrhyw hawliau eraill sydd ganddi, yn rhydd ar unwaith i derfynu’r contract ac i adfer unrhyw golledion neu ddifrod gan y Cyflenwr sy’n deillio o derfyniad o’r fath.’*

Ni ddylid ymgymryd ag unrhyw weithgaredd Prifysgol sydd yn hysbys yn torri deddfau a rheoliadau unrhyw wlad. Gall staff sydd yn diystyru'r gwaharddiad hwn yn fwriadol neu'n ddifeddwl fod yn destun ar gyfer camau disgyblu, hyd at a chan gynnwys diswyddo.

Mewn achosion o amheuaeth, dylai pob aelod o staff ymofyn cyngor gan Ysgrifennydd y Brifysgol cyn gwneud unrhyw ymrwymiadau ariannol lle ceir amheuaeth o drosglwyddo arian yn anghyfreithlon neu weithgaredd troseddol arall.

Rhaid i bob aelod o staff sicrhau eu bod yn ymrwymo i adnoddau’r Brifysgol mewn modd tryloyw a moesegol ac mae’n rhaid iddynt geisio cynnal a gwella safle’r Brifysgol.

Yr Egwyddorion Allweddol yng Nghaffaeliad y Brifysgol yw (fel y diffinnir gan y gyfraith)

a. Ymdriniaeth gyfartal,
b. Peidio â gwahaniaethu,
c. Tryloywder,
d. Cymesuredd,
e. Cyd-gydnabod

Bydd diffyg arsylwi’r canlynol yn arwain at gamau disgyblu, hyd at a chan gynnwys diswyddo:

a. Ni ddylai’r staff ddefnyddio eu hawdurdod mewn swydd er mwyn budd personol iddynt eu hunain, eu ffrindiau neu berthynas,
b. Ni all unrhyw un werthuso cynigion neu arwyddo contract Prifysgol os oes ganddynt hwy (neu deulu) fuddiant personol ym materion y parti arall.